

**Dyddiad cyhoeddi:** 22 Chwefror 2021

### **Cais Rhyddid Gwybodaeth**

Rydym ni'n ysgrifennu atoch i ymateb i'r Cais Rhyddid Gwybodaeth a wnaethoch. Mae eich cais wedi cael ei ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

#### **Fe wnaethoch chi ofyn am yr wybodaeth ganlynol:**

“O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, hoffwn ofyn i chi atodi ffeiliau sain holl gyhoeddiadau awtomatig Trafnidiaeth Cymru sy'n cael eu gwneud ar eich trenau ac ar blatfformau eich gorsafoedd trenau. Felly dylai hyn gynnwys cyhoeddiadau ar y trê'n a chyhoeddiadau yn yr orsaf. Mae unrhyw fformat fel MP3 neu ZIP yn iawn. At ddefnydd personol a diddordeb yn unig y mae hyn. Diolch yn fawr ac edrychaf ymlaen at eich ymateb.”

#### **Ar ôl adolygu eich cais, nid ydym ni'n gallu darparu'r wybodaeth y gwnaethoch chi ofyn amdani.**

Mae TrC yn meddu ar yr wybodaeth hon. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth hon wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 38 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Iechyd a Diogelwch). Mae adran 38 yn darparu eithriad rhag datgelu gwybodaeth pe byddai'n rhoi unigolyn mewn perygl. Nid yw'r eithriad o reidrwydd yn delio â materion y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel materion iechyd a diogelwch, ac mae'n ystyried iechyd meddwl a chorfforol unrhyw unigolyn yn ogystal â'i ddiogelwch.

I ddefnyddio'r eithriad hwn, rhaid i awdurdod cyhoeddus ddangos bod cysylltiad achosol rhwng datgelu'r wybodaeth a rhoi unigolyn mewn perygl. Rhaid i'r awdurdod cyhoeddus hefyd ddangos y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o gael effaith andwyol ar iechyd meddwl, iechyd corfforol a diogelwch yr unigolyn ac nid mewn modd dibwys.

Mae defnyddio'r eithriad hwn hefyd yn amodol ar asesiad o fudd y cyhoedd.

Fel awdurdod cyhoeddus, mae TrC yn cydnabod bod angen bod yn agored ac yn dryloyw, yn ogystal â faint o ddiddordeb sydd gan y cyhoedd yng nghyswllt cyhoeddiadau TrC. Fodd bynnag, yn yr achos hwn, mae'r risg i iechyd a diogelwch yn drech na hyn. Er enghraifft, gallai'r recordiad gael ei ddefnyddio mewn ffordd flinderus mewn gorsaf drenau i wrth-ddweud y cyhoeddiadau sy'n cael eu gwneud gan Reolwr yr Orsaf. Gallai hyn achosi i deithwyr ruthro i blatfform arall anghywir a mynd ar y trê'n anghywir. Byddai hyn yn achosi trallod sylweddol i unrhyw deithwyr fyddai'n cael eu twyllo fel hyn, a gallai hefyd beri i deithwyr beryglu eu diogelwch drwy ruthro i fynd ar y trê'n anghywir ar blatfform arall mewn dryswch neu banig.

Er ein bod ni'n cydnabod eich bod chi'n gofyn am y wybodaeth hon at ddefnydd personol a diddordeb yn unig, mae TrC yn cael llawer o geisiadau am ein cyhoeddiadau awtomataidd, a dyma ein hymateb safonol.

Yn gywir,

## **Trafnidiaeth Cymru**

### **Hawliau Apelio**

Os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y cafodd eich cais ei drin a'ch bod chi'n dymuno gwneud cwyn neu wneud cais am adolygiad o'n penderfyniad, ysgrifennwch at y Pennaeth Rhyddid Gwybodaeth naill ai yn Trafnidiaeth Cymru, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH neu [freedomofinformation@tfw.wales](mailto:freedomofinformation@tfw.wales). Rhaid i'ch cais gael ei gyflwyno o fewn 40 diwrnod gwaith i dderbyn y llythyr hwn. Os na fyddwch chi'n fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais yn uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad.

Gallwch chi gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF neu gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy adran 'Gwneud Cwyn' eu gwefan ar y ddolen hon: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

Yr adran berthnasol i'w dewis fydd "Gwvbodaeth Swyddogol neu Gvhoeddus".